Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 328 – 19 Rhagfyr 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 327
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 327.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Nododd y Cadeirydd bod y broses apwyntio aelodau newydd i'r Awdurdod yn parhau a bod y broses yn cael ei drefnu gan DCMS.

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer dwy Noson Gwylwyr ar gyfer y flwyddyn newydd. Bydd y nosweithiau yn cael eu cynnal i gyd-fynd gyda'r ymgyrch "Ymlaen â'r Sioe" yn ardaloedd trosglwyddyddion Blaenplwyf a Gwenfo. Y bwriad yw cynnal y nosweithiau ym Machynlleth ac ardal Glyn Ebwy. Bydd rhagor o gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ystod 2010, a bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu trefnu ar ôl diwedd proses y newid i ddigidol.

Llongyfarchodd y Cadeirydd bawb oedd wedi bod yn gysylltiedig gyda'r enwebiadau a gwobr BAFTA diweddar.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Polisi Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol, Darllediadau Etholiadol a Refferenda
Cyflwynwyd polisïau drafft ar gyfer darllediadau gwleidyddol, darllediadau pleidiau yn ystod cyfnod etholiad cyffredinol ac etholiadau eraill a refferenda. Ystyriwyd a chymeradwywyd y polisïau.

Mesur economi digidol a chynlluniau peilot IFNC.
Cyflwynwyd crynodeb o'r Mesur Economi Digidol.

Adroddiad Blynyddol Polisi Amddiffyn Plant a Phobol Fregus
Cyflwynwyd adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Amddiffyn Plant a Phobl Fregus. Roedd y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi ystyried yr adroddiad.

Consortiwm Cyfranogiad Digidol
Nododd IJ bod S4C wedi cael gwahoddiad i fod yn aelod o'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol. Bydd swyddogion yn paratoi adroddiadau i'r Awdurdod ar waith y consortiwm.

Newid i Ddigidol
Cyflwynwyd diweddariad o'r Gofrestr Risg yn ymwneud â phroses y newid i ddigidol.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad y Pwyllgor Cynnwys
- Cynllun Corfforaethol 2010
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil